

ATHRAWON LLANW BWLETIN

Llywodraeth newydd yn San Steffan – Sut y bydd hynny'n effeithio ar athrawon llanw yng Nghymru?

Mae NASUWT wedi bod yn rhan o gyfres o gyfarfodydd gyda Llywodraeth newydd San Steffan, yn ogystal â thrwy adain y TUC, i gyflwyno'r achos dros Fargen Newydd i Athrawon, gan gynnwys sicrhau amddiffyniadau digonol i bob gweithiwr (fel athrawon llanw).

Bydd yr Undeb yn ymgyrchu ac yn defnyddio ei ddylanwad i sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil Hawliau Cyflogaeth ynghylch contractau heb oriau ac 'oriau isel' yn cwmpasu gweithwyr asiantaeth, gan gynnwys athrawon llanw.

Mae NASUWT wedi bod ar flaen y gad o ran tynnu sylw at gam-drin athrawon llanw gan asiantaethau cyflogaeth a chyflogwyr diegwyddor eraill, a bydd yr Undeb yn parhau i sicrhau bod hyn yn cael ei amlygu fel mater allweddol.

Bydd NASUWT hefyd yn ymgyrchu ar orfodaeth cryfach o hawliau gweithwyr trwy greu un corff gorfodi, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag asiantaethau cyflogaeth.

Beth ddigwyddodd i'r Pŵl Cyflenwi Cenedlaethol?

Mae NASUWT wedi herio Llywodraeth Cymru i sefydlu'r Pŵl Cyflenwi Cenedlaethol wedi amryw addewidion. Er bod Teacher Booker (darparwr blaenllaw o adnoddau staffio cyflenwi ar gyfer ysgolion) wedi'i roi ar waith, mae'n ymddangos bod y prosiect cyfan wedi dod i stop. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrth NASUWT fod y dechnoleg yn gweithio ond bod y cynnydd yn araf oherwydd 'cymhlethdodau o ran dehongli'. Bydd NASUWT yn parhau i lobio ac ymgyrchu i herio Llywodraeth Cymru i gyflawni cynnydd gyda'r Pŵl Cyflenwi Cenedlaethol.

Ymgyrch 'Tâl Salwch Diogel'

Mae NASUWT ymhlith nifer o undebau a sefydliadau llafur sy'n cefnogi ymgyrch 'Tâl Salwch Diogel' gan y Ganolfan Newid Arloesol (Centre for Progressive Change).

Y DU sydd â'r cynllun tâl salwch statudol gwaethaf o blith yr OECD ac mae'r ymgyrch yn galw ar y Llywodraeth i fynd i'r afael â lefelau gwarthus y Tâl Salwch Statudol (SSP) sydd ar gael i weithwyr, gan gynnwys athrawon cyflenwi.

Mae rhagor o wybodaeth ar yr ymgyrch hon, gan gynnwys dolenni i adnoddau ar gyfer athrawon cyflenwi yma: [Statutory Sick Pay for Supply Teachers \(Wales\)](#)

Tâl Athrawon Llanw 2024/25

Yn dilyn argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB), mae y cyfraddau dyddiol diwygiedig arfaethedig ar gyfer athrawon cyflenwi i'w gweld ar: [Supply Teachers' Pay \(Wales\)](#)

Seminar Athrawon Llanw

Cynhaliwyd y Seminar Athrawon Llanw diweddaraf ar-lein ar 28 Medi 2024, gyda diweddariad o'r gwaith a wnaed gan NASUWT ar ran aelodau athrawon cyflenwi – a ddilynwyd gan gyfres o weithdai, gan gynnwys:

- Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg;
- Sut i liniaru straen a theimlo bod gennych reolaeth;
- Trefniadau pensiwn ar gyfer athrawon cyflenwi; a
- Cyflwyniad i'r rhai sy'n newydd i waith llanw.

Cynhelir y Cynhadledd Athrawon Llanw nesaf ar 8 Mawrth 2025, felly os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu, neu os oes gennych awgrym ar gyfer gweithdy, cysylltwch â'r Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau yn: [**conferencesandevents@mail.nasuwt.org.uk**](mailto:conferencesandevents@mail.nasuwt.org.uk)